Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trwyddedau a gyhoeddwyd yn 2017 i ddefnyddio trap cawell i ddal moch daear, marcio moch daear a lladd/cymryd moch daear i atal lledaeniad afiechyd

Fel rhan o'r Rhaglen, sydd wedi'i gryfhau, i Ddileu TB, rhoddir trwyddedau i farcio, maglu a chymryd moch daear i atal lledaeniad clefyd ar ffermydd sydd â buchesi ag achosion TB cronig. Dim ond moch daear a ddalwyd sydd wedi'u profi yn bositif am TB sydd yn cael eu lladd yn ddi-boen.

Rhoddwyd trwyddedau i dri daliad fel rhan o'r rhaglen. Roedd y tri thaliad mewn ardaloedd sydd â risg uchel mewn perthynas â TB, ac yn cwmpasu cyfanswm arwynebedd tir o 685 hectar.

Roedd y cyfnodau trwyddedu ar gyfer y trwyddedau a gyhoeddwyd fel a ganlyn:-

1. Roedd y drwydded gyntaf rhwng 13 Medi 2017 a 31 Rhagfyr 2017

2. Roedd yr ail drwydded rhwng 28 Medi 2017 a 31 Rhagfyr 2017.

3. Roedd y drydedd drwydded rhwng 13 Hydref 2017 a 31 Rhagfyr 2017.